| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **28ain Mawrth 2012** |
| **Aelod Arweiniol / Awdur:** | **Pennaeth Cyllid ac Asedau** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Prif Gyfrifydd Dros Dro** |
| **Teitl:** | **Amlinelliad Archwilio Ariannol Blynyddol** |

## 1. Beth yw byrdwn yr adroddiad?

Teitl yr adroddiad yw 'Amlinelliad Archwilio Ariannol Blynyddol' ac fe'i paratowyd gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC). Mae'r adroddiad yn nodi materion megis rolau a chyfrifoldebau, agwedd archwilio, adrodd, ffi archwilio, elfennau allweddol ymgysylltiad archwilio a'r tîm archwilio ariannol.

## 2. Pam cyflwyno'r adroddiad hwn?

Mae gofyn i'r archwilwyr allanol baratoi a chyflwyno'r adroddiad hwn er mwyn cyflawni eu gofynion o ran safonau archwilio ac arferion archwilio priodol. Cyflwynir yr adroddiad er gwybodaeth.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Argymhellir bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys yr adroddiad. Bydd cynrychiolwyr SAC yn mynychu'r cyfarfod i ateb cwestiynau ar yr adroddiad.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Mae'r adroddiad yn rhoi amlinelliad i'r Cyngor o'r gwaith archwilio ariannol sydd ei angen ar gyfer datganiadau ariannol 2011-12 a'r ffïoedd am wneud y gwaith. Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth ar yr agwedd archwilio, gan gynnwys risgiau archwilio allweddol sydd wedi eu hadnabod yn ystod y broses gynllunio ragarweiniol a'r camau a gynigir i ddelio â hwy. Defnyddir y gwaith archwilio ariannol ar y meysydd risg hyn i fwydo gwybodaeth i'r farn archwilio ar y datganiadau ariannol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at Flaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r gwasanaeth archwilio yn ddarpariaeth statudol. Mae gofyn i'r Archwiliwr Penodedig, dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, archwilio ac ardystio datganiadau ariannol y Cyngor. Mae gofyn hefyd i'r Archwiliwr Penodedig fodloni ei hun bod y Cyngor wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd wrth ddefnyddio ei adnoddau.

## 6. Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio gwasanaethau eraill?

Nodir y ffïoedd am waith a wneir gan SAC mewn perthynas â’r archwiliad ariannol ar dudalennau 8 a 9.

## 7. Pa ymgynghori a fu?

Trafodwyd cynnwys yr adroddiad gyda’r Pennaeth Cyllid a Gwasanaethau Eiddo ac uwch swyddogion yr Adran Gyllid.

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Ariannol

Mae hon yn ddarpariaeth statudol. Mae ffïoedd archwilio wedi eu rhewi ac yn ymrwymiad cyllidebol presennol i’r awdurdod.

## 9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y medrwn ei wneud i’w lleihau?

Dylai’r broses archwilio amlygu unrhyw risgiau arwyddocaol ac ymateb rheolwyr i ddelio gyda neu leihau’r risg neu’r effaith.